

Dim dihangfa i'r saint

“Wele, yr wyt yn dymuno gwirionedd oddi mewn; felly dysg imi ddoethineb yn y galon.” (adn. 6)

Beth am ddarllen Salm 51:1–19 ac yna myfyrio

Wrth inni edrych ar fywyd Cristnogion dros y degawdau diwethaf, yr wyf yn rhyfeddu at y ffyrdd gwahanol y mae unigolion yn delio â gofidiau meddylion emosiynol sydd yn dod i'w rhan. Mae rhai, er enghraifft, yn defnyddio arf gwadu. Maent am esgus fod yr hyn y maent yn ei deimlo yn sicr ddim yn boen. Mae llawer o Gristnogion yr wyf yn gyfarwydd â hwy wedi troedio'r llwybr hwnnw ond y gwir amdani, dydi'r llwybr hwnnw'n arwain i unman a'r canlyniad yn fynych iawn yw gofidiau a'r dioddefaint emosiynol sydd yn deillio o'r math yma o wasgu ar realiti.

Mae rhai credinwyr yn mynnu honni fod y Cristion hwnnw sydd yn cerdded gyda Duw o ddydd i ddydd, mewn perthynas agos ag ef, y Cristion sydd â bywyd gweddi cyfoethog yn un sydd y tu hwnt i boenau emosiynol. Nonsens llwyr yw hyn wrth gwrs. Tra ei bod yn wir i ddweud fod y Cristnogion hynny sydd yn cerdded gyda Duw wedi eu heithrio o'r math o boenau a gofidiau y mae'r annuwiol yn eu dioddef, wrth iddynt wneud camgymeriadau moesol, nid yw eu perthynas â Duw yn eu cadw rhag dioddef y math o boen sydd yn dod wrth i bobl ein gwrthod, wrth i angau ddod heibio, wrth i gamddealltwriaeth eu llethu, ac yn y blaen. Nid yw chwaith yn ein heithrio rhag y boen yna sydd yn dod gan ein bod ni yn wahanol. Mae ein cwmpawd moesol yn wahanol i bobl o'n hamgylch.

Wrth inni siarad gyda Christnogion fel hyn a dweud wrthynt ei fod yn beth cwbl normal i ddioddef poen wrth inni gael ein gwawdio a'n herio, maent yn ymateb drwy ddweud fod yr Ysgrythur yn eu dysgu ein bod i lawenhau wrth inni gael ein herlid. Mae hynny'n wir, ond nid oes angen inni esgus nad ydym yn profi poen er mwyn llawenhau. Mae pobl sydd yn esgus yn byw mewn gwadiad ac yn methu â sylweddoli fod integriti yn mynnu fod popeth sydd yn wir yn rhywbeth yr ydym yn barod i'w wynebu.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Marc 3:1–6; 7:31–35; 8:11–12; 2 Cor. 1:3–11

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd yr anawsterau a wynebodd yr Arglwydd Iesu?
2. Beth oedd yr anawsterau y bu raid i Paul eu hwynebu?

Gweddi

O Dduw, gwared fi rhag ceisio gwadu gwir deimlad fy nghalon ond yn hytrach i ddod â fy mhoen, fy ngofid, fy anawsterau atat ti er mwyn i mi adnabod dy nerth a'th ras di. Caniatâ i mi fod yn berson o integriti hyd yn oed yn fy ngolwg fy hun ac yn arbennig yn fy ngeiriau o dy flaen di, a hynny yn enw Iesu. Amen.